# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd G Walter**

**Ward: Canol Dwyrain Porthcawl**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau rhwng **1/5/2023 a 30/4/2024.** Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**Y Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Canol Dwyrain Porthcawl ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o bum pwyllgor. Fy nghofnod presenoldeb o holl gyfarfodydd y cyngor a'r pwyllgorau eleni yw 33 allan o 35, sef 94%.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 59 o ymholiadau/atgyfeiriadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â 17 o faterion eraill y gofynnwyd i mi helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth drwy ddilyn y ddolen hon:
Y Cynghorydd Graham Walter

**Gweithgareddau Etholaethol**

Rwyf wedi mynychu Archwiliadau Gweledol Amgylcheddol ar y cyd â'n Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i helpu i nodi a datrys materion sy'n peri pryder, ynghyd â Theithiau Cerdded Ward at yr un diben.

Rwy'n mynychu cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) yn rheolaidd ac wedi cynnal sesiynau Holi ac Ateb yn Shout Porthcawl, sef fforwm ar gyfer pobl dros 50 oed.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi bod yn rhan o gyfarfodydd ar y safle ac ymgyngoriadau mewn perthynas ag Adfywio Porthcawl, datblygiad Cosy Corner a Phafiliwn y Grand.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Yn ystod y flwyddyn rwyf wedi cadeirio'r Grŵp Cyfranogiad Cleifion yn ein Meddygfa leol.

| | |
|---|---|
| | |
| **Y Cynghorydd G Walter:** | **Dyddiad: 11/06/2024** |